

Adroddiad Ymchwil

Llwybrau yng Nghymru

Corff gwarchod cenedlaethol annibynnol teithwyr rheilffordd

Ffocws ar deithwyr
yn rhoi teithwyr yn gyntaf

Ym mis Mawrth 2008 cynhaliodd Ffocws ar Deithwyr arolwg gyda 2632 o deithwyr ar bedwar llwybr sy'n gwasanaethu Cymru 829 ar linell Cambrian, 665 ar linell y Gororau, 528 ar lwybr Valley Lines a 610 yn Ne-orllewin Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg i ddeall barn teithwyr ynghylch y gwasanaethau presennol ar y llwybr ac ynghylch newidiadau a gwelliannau dichonol. Defnyddiwyd y canfyddiadau i roi gwybodaeth i gyflwyniad Ffocws ar Deithwyr i ymgynghoriad Network Rail ynghylch Strategaeth Defnyddio Llwybrau Cymru, yn ogystal â'r cynlluniau trafniadaeth rhanbarthol a chynlluniau datblygu'r rheilffordd.



Yr ymchwil

- Cynhaliwyd yr arolwg gan Continental Research ar ran Ffocws ar Deithwyr.
- Dosbarthwyd holiaduron i deithwyr ar drenau.
- Roedd teithwyr yn gallu cwblhau'r arolwg ar y trê'n a'i ddychwelyd i'r cyfwelydd neu ei ddychwelyd mewn amlen ragdaledig.
- Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 1 a 15 Mawrth 2008.
- I sicrhau sampl cynrychioliadol, trefnwyd sifftiau mewn oriau brig ac oriau allfrig yn ystod yr wythnos, ac ar benwythnosau.
- Cyfunwyd y data o'r pedwar llwybr i gyflwyno'r canfyddiadau cyffredinol, ac eithrio lle nodwyd hynny.

Sut mae teithwyr yn defnyddio'r llwybrau ar hyn o bryd

- Roedd un rhan o dair o deithwyr (31%) yn defnyddio'r llwybr i gymudo i'r gwaith/addysg neu yn ôl. Roedd 58% yn teithio at ddibenion hamdden a 9% at ddibenion busnes.
- Y tair gorsaf gyda'r niferoedd uchaf o

deithwyr yn mynd ar y trê'n oedd Caerdydd Canolog (11%), Aberystwyth (10%) ac Amwythig (8%).

- Roedd bron hanner (48%) o'r holl deithwyr yn teithio ar y llwybr am y tro cyntaf pan gawsant

eu holi, tra oedd 20% wedi'i ddefnyddio chwe gwaith neu fwy yn ystod y pythefnos cynt.

- Cerddodd 46% i'r orsaf, tra oedd cyfran lai'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (23%) neu mewn car (27%).

Yr hyn sydd ei eisiau ar deithwyr

Cyfleusterau pwysig sydd eu hangen yn yr orsaf:

- Gwybodaeth weledol gywir ynghylch pryd y bydd trenau'n cyrraedd (50%)
- Toiledau (45%)
- Cyhoeddiadau cywir ynghylch amserau cyrraedd a gadael (37%)
- Staff yn yr orsaf (36%)


(Noder: Mae canrannau'n uwch na 100% gan y bu modd i deithwyr ddewis mwy nag un opsiwn.)

Roedd gan 46% o deithwyr ddiddordeb mewn prynu tocynnau a oedd yn ddilys am bum taith.



Pa mor aml roedd teithwyr yn prynu bwyd a diod ar y trê'n

(Noder: gofynnwyd y cwestiwn hwn ar lwybr Cambrian a llwybr y Gororau'n unig)



- Byddai 38% o'r teithwyr ar linell Cambrian a linell y Gororau'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth bwffe ar y trê'n pe gwerthid bwyd poeth.

Bysiau'n disodli trenau

(Noder: gofynnwyd y cwestiwn hwn ar lwybr De-Orllewin Cymru a llwybr Valley Lines yn unig.)

- Roedd 43% o'r teithwyr a oedd yn defnyddio'r llwybrau wedi teithio ar fws a gynigiwyd yn lle trê'n yn y 12 mis diwethaf
- O'r rheiny a ddefnyddiodd y gwasanaeth, roedd 53% yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch y gwasanaeth bws yn annigonol, yn bennaf oherwydd cyngor hwyr a'r diffyg gwybodaeth ynghylch hyd y daith.
- Roedd 39% heb gael digon o gymorth wrth newid i'r bws neu ohono, gan na roddwyd cyfarwyddiadau.

Sut mae'r gwasanaeth bws yn cymharu â'r trê'n o ran:

	Yn well na'r trê'n (%)	Yn waeth na'r trê'n (%)
Maint y seddau	10	44
Lle i'r coesau	9	52
Toiled yn y cerbyd	4	47
Lle ar gyfer bagiau	4	55
Hygrychedd	5	47

Beth mae teithwyr yn ei feddwl am newidiadau arfaethedig i wasanaethau


Dywedodd bron dau draean (64%) o'r teithwyr y byddai'n well ganddynt gael gwasanaethau cyflymach, yn hytrach na galw mewn rhagor o orsafoedd. O'r teithwyr hynny a oedd yn awyddus i gael gwasanaeth cyflymach, byddai rhaid gostwng hyd y daith gan 15 munud i wneud gwahaniaeth buddiol i 14% ohonynt. Fodd bynnag, dywedodd 56% y byddai rhaid i hyd eu taith gael ei ostwng gan fwy na 15 munud i wneud gwahaniaeth.

(Noder: ni ofynnwyd y cwestiwn hwn ar lwybr Valley Lines.)

Gofynnwyd i deithwyr p'un o'r canlynol fyddai orau ganddynt

- Trenau sy'n stopio ym mhob gorsaf
- Dim ateb
- Teithiau cyflymach rhwng y prif drefi ar y llwybr hwn, gyda llai o arosiadau mewn gorsafoedd yn y canol

Noder: mae'r canrannau'n uwch na 100% oherwydd talgrynnu



Barn teithwyr am wasanaethau

Canran y teithwyr oedd yn gymharol fodlon neu'n fodlon iawn ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth

Diogelwch personol ar y trê'n	58%
Argaeledd y seddau	72%
Y gwerth am arian am bris y tocyn	46%
Hyd y daith yn ôl yr amserlen	60%
Prydlondeb/dibynadwyedd y trê'n	67%
Amllder y trenau ar y llwybr	49%
Pa mor rhwydd yw cyrraedd/gadael yr orsaf	65%
Yr wybodaeth a ddarperir ynghylch amserau'r trenau/y platfform	67%
Diogelwch personol yn yr orsaf	50%
Cyfleusterau prynu tocynnau	63%